

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: 10 Medi 2019

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD LLUN, 16 MEDI 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM
9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

AGENDA

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y
RHAN HON O'R CYFARFOD**

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019 (copi ynghlwm).

Bydd y Pwyllgor yn trafod yr eitem ganlynol, sef eitem rif 5, fel Pwyllgor Archwilio Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 adrannau 19 a 20.

5 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL AR GYFER 2018-19 (Tudalennau 19 - 68)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (copi ynghlwm) sy'n ceisio sylwadau'r Pwyllgor ar weithgarwch y Gyd Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn 2018-19 a'r cynllun gweithgarwch lleol a rhanbarthol ar gyfer 2019-20.

10.05am – 10.45am

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1 EBRILL 2018 – 31 MAWRTH 2019 (Tudalennau 69 - 76)

Ystyried adroddiad gan Reolwr Tîm Gwasanaethau Diogelu Gweithredol (copi ynghlwm) sydd am i'r Pwyllgor adolygu cynnydd y Cyngor o ran trefniadau ac arferion diogelu lleol yn ystod y cyfnod uchod, a'u heffaith ar oedolion diamddiffyn yn y sir.

10.45am – 11.30am

EGWYL 11.30am - 11.40am

7 GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC A GWASANAETHAU NIWRO-DDATBLYGIAD

Derbyn cyflwyniad gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn Sir Ddinbych, a Gwasanaethau Niwro-Ddatblygiad

11.40am – 12.30pm

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 77 - 100)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Joan Butterfield
Gareth Davies
Hugh Irving
Pat Jones
Christine Marston

Y Cyngorydd Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Melvyn Mile
Peter Scott
Rhys Thomas
David Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Iau, 11 Gorffennaf 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Hugh Irving, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Rhys Thomas ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB) (yn lle'r Prif Weithredwr), Prif Reolwr – Gwasanaethau Cymorth (AL), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwald a Threftadaeth (HR), Swyddog Ecoleg (JW), Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig (GR), Swyddog Gwarchod y Cyhoedd - Safonau Masnach (NS), Swyddog Arweiniol – Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu (SO), Cydlynedd Craffu (RE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

Hefyd yn y cyfarfod:

Y Cynghorydd Brian Blakeley – Cefnogwr Pobl Ddigartref
Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth – y Cynghorydd Bobby Feeley
Aelod Arweiniol Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – y Cynghorydd Mark Young

Arsylwyr:

Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Glenn Swingler a Graham Timms

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Peter Scott a David Williams.

Cafwyd hefyd ymddiheuriadau gan yr Aelod Arweiniol ar gyfer Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Tony Thomas, a Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymunedol a Busnes - Abbe Harvey

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau.

Enwebodd y Cynghorydd Rhys Thomas y Cynghorydd Emrys Wynne, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

PENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Emrys Wynne yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau am y flwyddyn i ddod.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu. Partneriaethau a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2019.

Materion yn codi – Tudalen 10, Eitem 5 Ysbyty Dinbych -awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahanu'r wyth dewis a gyflwynir i sicrhau nad oes dryswch a bod y rhain yn wyth dewis ar wahân.

Awgrymodd y Cynghorydd Emrys Wynne y dylid diwygio rhan o'r cyfieithiad gan fod y geiriad yn anghywir. Er eglurder, yn y cofnodion Cymraeg, dylai gair olaf yr ail baragraff 'sef' ffurfio rhan olaf y frawddeg flaenorol "...gwasanaethau yn yr Ysbyty, sef:"

Tudalen 11- Eitem 5- Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y bydd cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin yn cael ei gynnal o fewn yr 14 diwrnod nesaf i drafod gweledigaeth ar gyfer darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn Ninbych yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2019 fel cofnod cywir.

6 DIOGELU A DIWALLU ANGHENION POBL DDIGARTREF

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yr adroddiad a'r atodiadau (a ddisbarthwyd yn flaenorol) gyda'r nod o amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda'r dull corfforaethol newydd o ddelio gyda digartrefedd yn y sir. Roedd yr adroddiad yn cynnwys Cynllun Gweithredu Digartrefedd Corfforaethol drafft ynghyd â manylion ailstrwythuro'r Tîm Atal Digartrefedd a oedd yn rhan o Wasanaethau Cymorth Cymunedol y Cyngor. Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi dull corfforaethol y Cyngor ar gyfer atal digartrefedd, darparu llety argyfwng / dros dro i unigolion a theuluoedd sy'n rhoi gwybod eu bod yn ddigartref, a sut mae'r Cyngor yn gweithio i symud y rhai mewn llety argyfwng / dros dro i ddatrysiadau tai cynaliadwy a hirdymor. Yn ystod ei chyflwyniad, pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod digartrefedd yn broblem gynyddol ar draws Cymru ac o ganlyniad roedd Llywodraeth Cymru (LIC), yn debyg i Sir Ddinbych ac awdurdodau lleol eraill, wedi nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater fel blaenoriaeth.

Eglurodd yr Aelod Arweiniol mai rhan o ddatrysiad Sir Ddinbych er mwyn mynd i'r afael â materion digartrefedd yn y sir oedd sefydlu partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i dreialu prosiect pilot ar draws y ddwy sir o'r enw Tai yn Gyntaf. Roedd manylion y prosiect yn Atodiad 6 yr adroddiad. Roedd cyllid grant

o gronfa Arloesi Tai yn Gyntaf LIC, cyfanswm o £330mil, wedi'i ddyfarnu i'r prosiect peilot a oedd wedi arwain at sefydlu tîm newydd i gynorthwyo pobl ddigartref sydd ag anghenion uchel a chymhleth. Nod y Tîm oedd sicrhau bod pobl yn setlo cyn gynted â phosibl yn eu cartrefi eu hunain ac yn derbyn cefnogaeth berthnasol. Byddai cefnogaeth ar gael iddynt cyn belled ag y bo ei angen arnynt er mwyn iddynt allu cynnal eu tenantiaeth. Roedd tystiolaeth a gasglwyd ar draws y DU a rhannau eraill o'r byd yn nodi bod gan y math hwn o ddull arloesol y potensial i ddarparu dull cynaliadwy allan o ddigartrefedd, gwella iechyd a lles a galluogi integreiddio cymdeithasol. Disgwylir i Dai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych groesawu eu tenantiaid cyntaf cyn diwedd Gorffennaf 2019.

Roedd penderfyniad Sir Ddinbych i fabwysiadu dull corfforaethol o fynd i'r afael â digartrefedd a phenodi Cyfarwyddwr Corfforaethol i arwain y gwaith yn tanlinellu ein hymrwymiad i leihau nifer yr unigolion a'r teuluoedd sy'n nodi eu bod yn ddigartref yn y sir. Yn y dyfodol byddai darpariaeth Cynllun Gweithredu Strategaeth Digartrefedd yn cael ei arwain gan Grŵp Strategaeth Tai. Canolbwynt y Cynllun Gweithredu oedd ymyrraeth gynnar ac atal. Roedd cyflwyno Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) wedi cynorthwyo'r awdurdod a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSL) i flaenoriaethu ymgeiswyr ar gyfer tai cymdeithasol, ond, roedd mwyafrif yr aelwydydd digartref ym Mand 2 ar hyn o bryd ac nid oeddent yn y band blaenoriaeth uchel. Roedd yr awdurdod lleol a'r RSLau yn y broses o gydlynu adeiladu a phrynu oddeutu 370 o unedau tai fforddiadwy / cymdeithasol.

Eglurodd y Cynghorydd Brian Blakeley i'r Pwyllgor, yn ei gapasiti fel Hyrwyddwr Digartrefedd y Cyngor, roedd wedi gweld gwaith rhagorol y Tîm Digartrefedd mewn amgylchiadau anodd iawn ar adegau gyda'i lygaid ei hun, ac roedd yn hyderus bod y Cyngor yn symud ymlaen yn ei nodau o fynd i'r afael â materion digartrefedd y sir.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Prif Reolwr: Gwasanaethau Cynnal i gwestiynau yr Aelodau fel a ganlyn:

- darparu eglurder o ran pwy oedd yn cael eu cyfrif fel 'digartref' – roedd gan Sir Ddinbych nifer cyfyngedig iawn o bobl oedd yn cysgu allan.

Roedd mwyafrif yr unigolion a'r teuluoedd 'digartref' yn:

- aros gyda ffrindiau dros dro (cysgu ar sofffa);
- tenantiaid gyda landlordiaid sydd eisiau gwerthu'r eiddo y maent yn byw ynddo;
- dioddefwyr cam-drin domestig;
- pobl y mae eu cartrefi ar fin cael eu had-feddiannu am eu bod wedi methu taliadau morgais neu rent;
- pobl ifanc nad oeddent yn gallu parhau i fyw gartref ond nad oedd ganddynt ddigon o incwm i rentu neu brynu lle eu hunain ac ati.

Pwysleisiwyd nad yw pob person digartref yn unigolyn diamddiffyn, ond gall fod yn bobl sydd yn wynebu cyfnodau anodd heb unrhyw fai arnynt eu hunain h.y. wedi colli swydd neu'n ddi-waith;

- cadarnhawyd y gallai pobl o du allan i'r sir gyflwyno eu hunain fel unigolion digartref yn Sir Ddinbych pe baent yn gallu profi bod ganddynt gysylltiad lleol gyda'r ardal;

- cynghorwyd ynglŷn â'r gofyniad cyfreithiol bod gan awdurdod lleol Strategaeth Digartrefedd wedi'i gyhoeddi fel y nodwyd yn Neddff Tai (Cymru) 2014;
- pwysleisiwyd pe bai holl wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at y Strategaeth Digartrefedd ac yn gyfrifol amdano gallai ategu ac atgyfnerthu dull y Cyngor o ganfod datrysiadau cynaliadwy a lleihau pwysau ar wasanaethau eraill. Ond byddai rhywfaint o alw am lety brys a thros dro i ddiwallu anghenion byr dymor pobl . Roedd enwebu Aelod Arweiniol a Chyfarwyddwr Corfforaethol i arwain gwaith y Cyngor mewn perthynas â materion digartrefedd yn sicrhau y gwneir pob ymdrech i ganfod datrysiadau cynaliadwy;
- Eglurwyd y byddai Strategaeth Cartrefi Gwag y Cyngor, a oedd yn ceisio dod â 500 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, yn gymorth i leihau digartrefedd yn y sir. Ond, nid oedd pob un o'r 500 eiddo yn cael eu paratoi i'w defnyddio gan deuluoedd / pobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref. Roedd Strategaeth Cartrefi Gwag yn un darn o jig-so enfawr sy'n ceisio cyflawni blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor ynglŷn â thai;
- Eglurwyd bod y Cyngor yn ceisio dyfeisio datrysiadau i broblemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, yn enwedig pobl ifanc sengl, wrth geisio canfod tai addas. Roedd gwaith ar y gweill gyda phrosiect Sir Ddinbych yn Gweithio a gyda RSLau i archwilio pecynnau posibl a allai gynorthwyo pobl ifanc sengl i dderbyn mynediad at dai addas a sefydlu eu hunain fel deilydd tŷ;
- darparwyd trosolwg o fenter Tai yn Gyntaf sef canfod cartref yn gyntaf i'r unigolyn neu'r teulu gydag anghenion cymhleth yna darparu cefnogaeth ddwys i'w cynorthwyo i sefydlu eu hunain a datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i gynnal tenantiaeth hirdymor a gwella eu lles o ganlyniad i hynny. Er mwyn sefydlu'r fenter roedd yn rhaid i'r ddau gyngor weithio'n agos gyda landlordiaid er mwyn sicrhau bod eiddo addas ar gael i'w osod i denantiaid Tai yn Gyntaf. Drwy'r Cynnig Landlord, byddai'r cyngor yn derbyn y denantiaeth ar ran yr unigolyn / teulu diamddiffyn ac yn gyfrifol am dalu'r rhent i'r landlord cyn cael eu had-dalu drwy system Budd-daliadau Tai. Hyd yma roedd 18 eiddo wedi'u sicrhau drwy'r dull hwn a oedd yn rhoi sicrwydd i landlordiaid o ran taliadau rhent. Os yw'r preswylwyr a gefnogir yn derbyn yr hyder a'r sgiliau a ddisgwylir o ganlyniad i'r gefnogaeth ddwys sy'n cael ei darparu iddynt yna'r nod fyddai bod y Cyngor yn trafod gyda'r landlord i sicrhau y gellir trosglwyddo'r denantiaeth i'r preswilydd yn hirdymor;
- Cadarnhawyd y byddai Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd (SHHG) yn cymeradwyo ei gylch gorchwyl yn eu cyfarfod nesaf. Nod ei ailsefydlu oedd rhoi mwy o ganolbwynt ar ddarparu'r Strategaeth Tai ac i ymgorffori'r Strategaeth Digartrefedd a Chynllun Gweithredu yn rhan o Gynllun Gweithredu a Strategaeth Tai cyffredinol y Cyngor gyda'r nod o sicrhau dull corfforaethol ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â thai;
- Cadarnhawyd nad oedd gan y Cyngor gynlluniau ar hyn o bryd i ddelio ag unrhyw ostyngiad mawr mewn cyllid Cefnogi Pobl (SP) a allai ddigwydd o ganlyniad i ailddosbarthiad Grant Cymorth Tai SP gan LIC. Pe bai'n dod i'r amlwg y byddai'r ailddosbarthiad hwn yn cael effaith andwyol ar yr awdurdod byddai strategaeth yn cael ei llunio er mwyn mynd i'r afael â cholli cyllid. Ni chafwyd unrhyw ddangosyddion eto o ran sut byddai'r

- aiddosbarthiad yn effeithio ar gyllid Sir Ddinbych, roedd posibilrwydd y byddai aiddosbarthu cyllid yn gweithio o blaid Sir Ddinbych;
- Cynghorwyd bod y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yn gweithredu Grant Tai Dewisol (DHG) y gallai teuluoedd wneud cais amdano i'w cynorthwyo i dderbyn tenantiaeth, er enghraifft.
Byddai talu'r un taliad hwn yn rhatach na chefnogi teulu mewn llety dros dro a byddai'n gwella eu lles;
 - Cadarnhawyd bod y swm y mae'r Cyngor yn ei dalu am lety gwely a brechwast dros dro yn amrywio, roedd yn dibynnu ar y math o lety, maint yr uned sy'n ofynnol ar gyfer y teulu, pa adeg o'r flwyddyn ydoedd ac ati.
Roedd y Cyngor yn trafod y cyfraddau gyda'r perchennog busnes. Mewn rhai achosion, defnyddir carafanau fel llety dros dro gan eu bod yn well am gadw teuluoedd gyda'i gilydd nac ystafelloedd mewn gwestai neu dai llety;
 - Cynghorwyd yn ystod 2018/19 roedd y Cyngor wedi talu £1.2 miliwn am lety dros dro ar gyfer pobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref.
Roedd yr Awdurdod yn cydnabod nad oedd hyn yn gynaliadwy yn y tymor canolig i hirdymor ac felly roeddent yn archwilio opsiynau gyda chymorth y Tîm Adfywio Economaidd er mwyn darparu datrysiadau tai dros dro yn fewnol h.y. datblygu canolfannau neu unedau llety argyfwng dros dro ac unedau tai â chymorth. Y nod oedd datblygu ystod o ddewisiadau bychan, gan na fyddai datrysiad 'un maint i bawb' yn gweithio;
 - Cytunwyd bod yr hyd cyfartalog y mae pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro, 56 diwrnod ar hyn o bryd, yn annerbyniol. Fodd bynnag, y rheswm dros hyn oedd diffyg eiddo addas i'w hailgartrefu ynddynt;
 - Cadarnhawyd pe na allai pobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref brofi fod ganddynt gysylltiad lleol gyda'r ardal byddent yn cael eu cynghori a'u chefnogi i ddychwelyd i'w hardal eu hunain cyn belled nad oes pryderon am eu diogelwch drwy wneud hynny. Byddai'r Cyngor yn ceisio trefnu darpariaeth llety dros dro ar eu cyfer yn yr ardal y maent yn dod ohono a rhoi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol ynglŷn â'r sefyllfa.
 - Cynghorwyd os oes gan denant y Cyngor ôl-ddyledion rhent byddai'r Tîm Atal Digartrefedd yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Tai'r Cyngor gyda'r nod o sicrhau na fyddai'r tenant yn cael eu troi allan ac i geisio llunio datrysiadau i sicrhau'r denantiaeth yn hirdymor;
 - Cadarnhawyd bod un RSL sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych wedi mabwysiadu polisi dim troi allan ar sail iechyd a thai. Roedd yr RSL penodol hwn yn archwilio a ellir caniatáu 'gwylliau tenantiaeth' pe bai'r tenantiaid yn yr ysbyty neu'n derbyn gofal mewn man arall dros dro;
 - Cynghorwyd hefyd fod gan y gymuned rôl i gefnogi preswylwyr diamddiffyn a'r rhai sydd mewn perygl o golli eu cartrefi;
 - ar hyn o bryd nid oedd dinasyddion yn cael llety yn Sir Ddinbych o Gonwy a Sir y Fflint, ond roedd rhai o breswylwyr Sir Ddinbych yn cael llety yng Nghonwy a Sir y Fflint. Roedd awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i'r awdurdod arall os oeddent yn darparu llety i'w dinasyddion mewn llety argyfwng dros dro mewn awdurdod cyfagos;
 - eglurwyd mai nod y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol oedd llunio'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol gyda'r nod o leihau digartrefedd ar draws Gogledd Cymru drwy rannu arferion gorau a datblygu gwasanaethau

a rennir lle bo modd, gan sicrhau y gwireddir y manteision gorau posibl o'r cyllid SP sydd ar gael;

- cynghorwyd bod y Gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech posibl i gefnogi pobl sydd angen cymorth y tu allan i'w canolfan yn Nhŷ Russell, y Rhyl. Roedd y gwasanaeth yn ariannu swyddog yn y Ganolfan Waith yn y Rhyl gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar o'r lleoliad hwnnw. Roeddent yn archwilio dewisiadau presennol ar gyfer lleoli tîm yn y gymuned, o bosib mewn cydweithrediad gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych (CAD); ac fe
- gadarnhawyd y gellir defnyddio llety dros dro arbenigol dim ond pan fo anghenion penodol wedi'u nodi ar gyfer y rhai sydd angen llety. Efallai y bydd unigolion a theuluoedd yn cael eu lleoli yn y mathau hyn o lety am gyfnodau hirach nag mewn llety dros dro arferol.

Cytunodd yr aelodau pwyllgor gyda'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion bod mabwysiadu ymagwedd gorfforaethol o ymyrraeth gynnar ragweithiol yn ddull darbodus o fynd i'r afael â materion digartrefedd yn y sir. Roedd rheoli disgwyliadau pobl o'r Gwasanaeth a'r Cyngor hefyd yn allweddol.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben, gofynnodd y Pwyllgor bod Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata'r Cyngor yn cyflwyno datganiad i'r wasg / gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol i egluro'r diffiniad o ddigartref a digartrefedd gyda'r nod o addysgu'r cyhoedd mewn perthynas â'r mater. Cyflwynodd yr Aelodau bryderon hefyd o ran effaith bosibl ar y Cyngor a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer preswylwyr pe bai ailddosbarthiad Grant Cymorth Tai SP yn andwyol ar gyfer yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod ef, yr Aelod Arweiniol ac unrhyw uwch swyddogion eraill ar gael bob amser i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Yn dilyn trafodaeth fanwl gan y Pwyllgor:

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr arsylwadau uchod a chyflwyno datganiad i'r wasg / cyfryngau:

- (i) y dylid cefnogi'r dull corfforaethol newydd o ddelio gyda digartrefedd drwy Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd;*
- (ii) cefnogi'r Cynllun Gweithredu Digartrefedd Corfforaethol drafft;*
- (iii) cefnogi nodau ailstrwythuro Tîm Atal Digartrefedd; a*
- (iv) bod adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran delio gyda digartrefedd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen 12 mis.*

7 CYNLLUN CYFLAWNI DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol ar gyfer Tai a Chymunedau, cyflwynodd Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd adroddiad y Swyddog Ecoleg a Chynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth drafft ac Asesiad o Effaith ar Les y Cyngor (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r Pwyllgor. Eglurodd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i geisio safbwyntiau'r aelodau ar y Cynllun a'i gynnwys cyn ceisio cymeradwyaeth yr Aelod Arweiniol ar gyfer y cynllun drwy'r broses o wneud penderfyniadau dirprwyol. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth bod Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn

ymgorffori'r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu hystyriaethau cynnar a chynllunio busnes ac i gyhoeddi cynllun o ran sut y maent yn bwriadu cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystem. Eglurodd i'r Pwyllgor bod llunio'r Cynllun, nodi camau allweddol a dangosyddion perfformiad, wedi cynnwys ymgysylltiad ac ymgynghori helaeth gyda swyddogion ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, oherwydd os yw'r Cynllun am gael ei gyflawni mae angen i'r holl wasanaethau ymgysylltu a bod yn barod i gyflawni eu rhan nhw ohono. Roedd y Cynllun ei hun ac adroddiad cynnydd ar y camau gweithredu ynddo angen eu cyhoeddi erbyn diwedd 2019.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i Bennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd a'r Swyddog Ecoleg:

- gadarnhau bod cost darparu'r Cynllun a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn seiliedig ar gyllideb bresennol y Gwasanaeth, gan wneud newidiadau bychan i arferion gwaith ac ati ac argaeledd cyllid grant allanol yr oedd gan y Gwasanaeth gofnod da yn y gorffennol o'i sicrhau. Fodd bynnag, o ganlyniad i Rybudd o Gynnig i'r Cyngor yn ddiweddar ar Argyfwng Newid Hinsawdd, yn dibynnu ar argymhellion y gweithgor arfaethedig, efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer gwaith bioamrywiaeth yn y dyfodol ac efallai y bydd angen ailddrafftio'r Cynllun;
- Cadarnhau bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW) ar nifer o brosiectau, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE);
- cynghori bod y Gwasanaeth yn defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer amryw o brosiectau, gan gynnwys monitro nythfeydd y Fôr-Wennol Fechan Roedd Prifysgol Bangor hefyd yn ymwneud â phrosiect y Fôr-Wennol fechan ac yn astudio ymddygiad y nythfeydd;
- cynghori bod amryw o wasanaethau'r Cyngor yn cefnogi a chyfrannu tuag at ddarpariaeth mentrau bioamrywiaeth fel rhan o'u diwrnodau meithrin tîm yn y Gwasanaethau.
- cadarnhau bod gwelliannau ecolegol ar gyfer ceisiadau cynllunio wedi newid ac yn awr roedd y Gwasanaeth yn cyfrannu'n rheolaidd at y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac yn darparu arsylwadau ecolegol ar geisiadau cynllunio unigol;
- egluro bod y gwylanod yn rywogaeth a warchodir a bod gan y Cyngor gynllun gweithredu ar wahân o ran sut i reoli gwylanod a lleihau'r niwsans y maent yn ei achosi. Roedd Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi archwilio effeithiolrwydd y cynllun hwn yn eu cyfarfod yr wythnos flaenorol;
- egluro mai polisi'r Cyngor o ran cynnal a chadw ymylon glaswellt ar briffyrdd, ym marn y Cyngor, oedd y gorau yng Nghymru o ran hyrwyddo a chefnogi bioamrywiaeth;
- cyfeirio at nifer y prosiectau bioamrywiaeth dolydd blodau gwyllt yr oedd y Cyngor yn cyfrannu atynt a sut yr oeddent yn canfod hadau a phlanhigion cynhenid ar gyfer y dolydd hyn mewn ymgais i sicrhau eu cynaliadwyedd;
- cynghori bod gwaith ar y gweill gyda Gwasanaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai'r Cyngor i lunio cynlluniau bioamrywiaeth ar gyfer ardaloedd gwyrdd o fewn ystadau tai'r Cyngor;
- cadarnhau y gwnaed pob ymdrech gyda chynghorau dinas, tref a chymuned yn y sir i hyrwyddo nodau bioamrywiaeth y Cyngor a'r rhesymau sy'n

tanategu eu polisïau cynnal a chadw priffyrdd a glaswellt. Fodd bynnag, roedd rhai grwpiau cymunedol wedi dangos rhywfaint o wrthwynebiad i ymagwedd y Cyngor;

- Egluro eu bod yn credu bod y Cyngor wedi cael y cydbwysedd cywir mewn perthynas â chynnal a chadw ymylon glaswellt ar briffyrdd rhwng diogelu bioamrywiaeth a diogelwch defnyddwyr ffyrdd.
Roedd iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth. Cyngorwyd yr Aelodau pe bai ganddynt unrhyw bryderon iechyd a diogelwch mewn perthynas â pholisi cynnal a chadw ymylon priffyrdd dylid eu hadrodd i Ganolfan Gwasanaethau Cwsmer y Cyngor er mwyn eu cofrestru ar system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a'u harchwilio'n unigol;
- cadarnhau ei bod yn ofynnol i NRW gyhoeddi a darparu Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth ynghyd ag Asiantaeth Cefnffyrdd LIC a oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw ymylon glaswellt ar gefnffyrdd y sir;
- cynghori bod Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor yn ymdrin â gwaredu planhigion ymledol nad ydynt yn gynhenid, tra byddai rhywogaethau cynhenid fel llysiau'r gingroen yn cael eu trin gan Strydwedd a staff neu gontractwyr eraill Priffyrdd a'r Amgylchedd yn cynnal gwaith ar ran y Cyngor; a
- chytuno gyda'r aelodau bod angen cynnal trafodaeth yn genedlaethol o ran casglu sbwriel ar gefnffyrdd

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

PENDERFYNWYD:

- (i) bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau ar gyfer y Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth;*
- (ii) yn amodol ar yr arsylwadau uchod i argymhell i'r Aelod Arweiniol ar gyfer Tai a Chymunedau, o dan y pwerau dirprwyol sydd ganddo, y dylid cymeradwyo Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth;*
- (iii) bod cyflwyniad yn cael ei ddarparu mewn sesiwn Friffio'r Cyngor yn y dyfodol ar ddyletswyddau'r Awdurdod mewn perthynas â bioamrywiaeth a lleihau carbon a'r cynnydd a wnaed i ddiwallu'r dyletswyddau hyn; ac*
- (iv) argymhell i Aelod Arweiniol ar gyfer Tai a Chymunedau y dylai ysgrifennu at Asiantaeth Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru yn ceisio mabwysiadu ymagwedd debyg i fioamrywiaeth i un Cyngor Sir Ddinbych wrth ymgymryd â thoriadau cynnal a chadw ymylon priffyrdd ac i waredu sbwriel o ymylon*

8 RHEOLAETH DIM GALW DIWAHODDIAD YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Diogelach yr adroddiad a'r atodiadau (a ddsbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn amlinellu sut yr oedd y Parthau Dim Galw Diwahoddiad yn y sir yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio safbwyntiau ar gynigion newydd ar gyfer y broses o gyflwyno parthau o'r fath yn y dyfodol.

Yn ystod ei gyflwyniad pwysleisiodd Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig a Gwarchod y Cyhoedd nad oedd yr Awdurdod yn cynnig gwaredu 'parthau dim galw diwahoddiad' na gwahardd dynodi 'parthau dim galw diwahoddiad' newydd, ond oherwydd y pwysau a achoswyd oherwydd bod llai o adnoddau ariannol nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru'r capasiti i gynnal ymgysylltiad ac ymgynghoriad cyhoeddus i sefydlu parthau newydd neu i gefnogi ail-rymuso parthau sefydledig. Byddent, fodd bynnag, yn parhau i ymateb i gwynion mewn perthynas â galw diwahoddiad. Gyda'r nod o hwyluso parhad y parthau presennol ac er mwyn galluogi sefydlu parthau newydd roedd y Cyngor yn cynnig y byddai disgwyl i breswylwyr / cymunedau sy'n dymuno sefydlu 'parthau dim galw diwahoddiad' yn y dyfodol yn trefnu'r ymgysylltiad cyhoeddus a'r ymarfer ymgynghori eu hunain ac y byddai'n rhaid i'r unigolion neu'r grwpiau cymunedol sy'n trefnu'r cais dalu am gostau yr arwyddion ac ati. Byddai'r Cyngor, fodd bynnag, yn eu cynorthwyo gyda'r broses ac yn darparu pecyn gwaith hunangymorth, a fyddai'n cynnwys dogfennau templed ar gyfer ymgynghori, pleidleisio, lansio'r parth a gwerthuso ei effeithlonrwydd. Byddai'r Cyngor hefyd yn fodlon nodi busnesau lleol a allai fod yn fodlon cynorthwyo gyda chostau'r arwyddion ac ati, tra bo Heddlu Gogledd Cymru yn barod i barhau i gyflenwi sticeri ffenestr, codi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau cymunedol ac ar gyfryngau cymdeithasol. Rhwng 2007 a 2016 sefydlwyd oddeutu 355 'parth dim galw diwahoddiad' yn Sir Ddinbych. Roedd yr holl barthau wedi'u sefydlu ar gais y preswylwyr a / neu'r Heddlu. Yn 2017 roedd adolygiad rhannol o effeithiolrwydd y parthau wedi'i gyflawni, a'r canlyniad oedd bod rhai preswylwyr nad oeddent yn sylweddoli eu bod yn byw mewn 'parth dim galw diwahoddiad'. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y rhai a holwyd yn credu bod ymyraethau fel 'parthau dim galw diwahoddiad' yn ddefnyddiol.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig a Gwarchod y Cyhoedd, a Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach):

- gynghori bod y prisiau a ddarparwyd yn yr adroddiad ar gyfer arwyddion allanol yn rhoi gwybod i bobl eu bod mewn 'parth dim galw diwahoddiad' yn costio oddeutu £200 fesul arwydd.
Dyma'r pris yr oedd y Cyngor wedi'i dalu i'r Siop Arwyddion yn y Cyngor, cyn iddo gau. Roedd wedi ennill y contract ar y pryd yn dilyn proses dendro;
- cadarnhau bod y Cyngor yn fodlon ymgysylltu ag unrhyw asiantaeth neu sefydliadau oedd eisiau cefnogi gwaith yn ymwneud â 'parthau dim galw diwahoddiad' h.y. OWL (a weithredir gan Heddlu Gogledd Cymru);
- cynghori nad oedd gan y Cyngor unrhyw gontract ffurfiol na chytundeb lefel gwasanaeth (SLA) mewn perthynas â 'Pharth Dim Galw Diwahoddiad';
- cadarnhau bod masnachwyr yn agored i erlyniad pe baent yn ymweld heb wahoddiad ag eiddo mewn 'parth dim galw diwahoddiad'. Fodd bynnag, roedd Gwasanaeth Safonau Masnach y Cyngor yn ffafrio cynnal gwaith atal gan gynnwys dosbarthu taflenni i bob cartref yn yr ardal gyda'r nod o ddiogelu preswylwyr, yn enwedig preswylwyr diamddiffyn, rhag ymwelwyr diwahoddiad a thwyllwyr;
- cynghori y byddai unigolion a grwpiau sydd eisiau sefydlu 'parth dim galw diwahoddiad' yn meddu ar fuddiant breintiedig mewn sefydlu'r parth.
Ar ôl cymryd camau i sefydlu parth byddai swyddogion Safonau Masnach yn gwirio y cymerwyd yr holl fesurau gofynnol er mwyn ei sefydlu'r ffurfiol o fewn chwe mis o'r cais gwreiddiol;

- cadarnhau mai Gwasanaeth Safonau Masnach y Cyngor fyddai'n gyfrifol am gamau gorfodi yn erbyn unigolion neu gwmnïau sy'n anwybyddu cyfyngiadau'r 'parth dim galw diwahoddiad', gallai hyn gynnwys erlyn y troseddwr (troseddwr).
Ond, prin iawn oedd yr achosion lle bo preswylwyr eisïau erlyn y 'galwr diwahoddiad' oni bai y cyflawnwyd trosedd ddifrifol, fel arfer roedd gair o rybudd gan swyddog Safonau Masnach yn ddigon i atal ymweliadau diwahoddiad;
- cynghori bod mwyafrif gwaith Safonau Masnach yn ymwneud â chwynion 'galw diwahoddiad' yn cynnwys casglu tystiolaeth a'i rannu gydag awdurdodau eraill. Roedd y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru wedi llunio cytundeb rhannu data i hwyluso rhannu gwybodaeth a dadansoddiad. Roedd hyn yn cynorthwyo'r sefydliadau i dargedu adnoddau i ddelio â chwynion yn effeithiol; a
- chytuno y byddai 'parth dim galw diwahoddiad' ar draws y sir yn fuddiol i'r holl breswylwyr, yn enwedig y rhai diamddiffyn, pe bai adnoddau ar gael i gefnogi'r cysyniad.

Teimla'r aelodau bod y costau a ddyfynnwyd ar gyfer arwyddion allanol yn ormodol a gofyn i'r swyddogion geisio dyfynbrisïau gan wneuthurwyr arwyddion o ran costau presennol arwyddion. Roeddent hefyd yn gofyn i'r swyddogion sicrhau bod yr holl arwyddion a sticeri yn cydymffurfio â Pholisi'r Gymraeg yn Sir Ddinbych ac yn cael eu cynhyrchu o ddeunyddiau sy'n ecogyfeillgar a bod modd eu hailgylchu.

Yn ogystal â hyn, gofynnwyd bod naill ai Briffio'r Cyngor neu ddigwyddiad hyfforddi'n cael ei drefnu ar gyfer yr holl gynghorwyr sir ar Raglen Atal Sgamïau.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr arsylwadau uchod a darparu costau arwyddion allanol a sticeri sy'n ecogyfeillgar, i gefnogi dull arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer gweinyddu cyflwyno 'parthau dim galw diwahoddiad' a'u gweithrediad.

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth -

- Nodwyd bod y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 23 Mai 2019 wedi'i ganslo oherwydd Etholiadau Senedd Ewrop.
- Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu i'r aelodau a oedd yn bresennol y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 16 Medi 2019, a fyddai'n cael ei gynnal yn Nhŷ Russell, y Rhyl.
- Byddai Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) yn cael ei symud o gyfarfod 16 Medi 2019 i gyfarfod 7 Tachwedd 2019.
- Byddai cyfarfod nesaf Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn cael ei gynnal ar 31 Gorffennaf 2019.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i: Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

Dyddiad y Cyfarfod: 16 Medi 2019

Aelod /Swyddog Arweiniol: Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel/
Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes

Awdur yr Adroddiad: Rheolwr Diogelwch Cymunedau

Teitl: Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedau
2018-2019

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae adroddiad gweithgaredd a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn seiliedig ar y cyd-flaenoriaethau partneriaeth a gytunwyd fel y nodwyd yn Archwiliad Troseddau Gogledd Cymru sy'n cael ei gynnal yn flynyddol. Mae Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru (**NWSCB**) yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yna'n llunio cynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro gan NWSCB. Yn lleol rydym yn darparu'r cynllun gweithredu hwn trwy ddadansoddi beth sy'n digwydd yn ein hardal leol a gweithredu datrysiadau lleol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu Pwyllgor Archwilio Partneriaethau o weithgaredd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) ar y Cyd yn 2018-2019 a'r cynllun gweithredu Lleol/Rhanbarthol ar gyfer 2019-2020.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau'n darparu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad gweithgaredd/perfformiad a'r cynllun gweithgaredd ynghlwm.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Fe grëwyd PDC yn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau i leihau trosedd ac anhrefn. Roedd gan bob Awdurdod eu PDC eu hunain. Tua 12 mlynedd yn ôl fe unodd timau PDC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (CBSC), a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn un tîm, gyda CBSC yn brif gyflogwr. Mae Gwella a Moderneiddio Busnes yn arwain rheolaeth PDC yn Sir Ddinbych.

4.2 Mae trefn cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Strategol - sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn - Presenoldeb CSDd; Rheolwr Gwella a Moderneiddio Busnes (Alan Smith) ac Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel (Cynghorydd Mark Young)

- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - yn cael ei gynnal bob mis ac mae'r Uwch Swyddog Gorfodaeth (Tim Wynne-Evans) yn bresennol ar ran CSDd.
- Grwpiau Tasg a Gorffen pryd a phan fo angen

4.3 Y tri maes blaenoriaeth PDC ar gyfer 2018-2019 oedd:

Maes Blaenoriaeth 1- Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal Leol a Rhanbarthol

Lleihau trosedd sy'n seiliedig ar ddiodefwr

Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag dod yn ddiodefwr trosedd

Lleihau achosion mynych o droseddau sy'n seiliedig ar ddiodefwr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i ddiodefwr a thramgwyddwyr

Gweithio gyda Chynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) i reoli lefelau diodefwr mynych o Gamdriniaeth Ddomestig

Delio'n effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cynyddu hyder i adrodd ynghylch Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o drais rhywiol

Maes Blaenoriaeth 2- Lleihau aildroseddu – Blaenoriaeth

Genedlaethol/Ranbarthol

Aildroseddu ymysg oedolion (18+)

Plant a phobl ifanc yn aildroseddu (12-17)

Maes Blaenoriaeth 3- Blaenoriaethau lleol

Lleihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig a thacsis

Gwella hyder mewn adrodd ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r Awdurdod Lleol (ALI)

Delio ag unrhyw ardaloedd â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn partneriaeth ag eraill

- 4.4 Mae gan bob maes Blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddu. Rydym yn adolygu'r holl ystadegau bob chwarter yn y Grŵp Llywio Strategol ac yn gweithredu ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.
- 4.5 Gweler y crynodeb perfformiad ynghlwm ar gyfer 2018-2019 (**Atodiad 1**)
- 4.6 Gweler yr adroddiad ystadegol ar gyfer 2018-2019 (**Atodiad 2**)
- 4.7 Gweler y cynllun gweithgaredd partneriaeth ynghlwm ar gyfer 2019-2020 (**Atodiad 3**)

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Lle y bo'n berthnasol, mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedau'n cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych.
- 5.2 Mae'r gwaith hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau gwasanaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae gweithgaredd partneriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu yn cael ei ariannu'n llawn gan grant, fodd bynnag bydd pob gwasanaeth yn neilltuo swm penodol o arian a fydd yn cefnogi canlyniadau'n uniongyrchol ar gyfer lleihau trosedd yn Sir Ddinbych.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Dim angen.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Ymgynghorodd y PDC ar Gynlluniau Gweithredu 2017-2020 gyda'r holl Awdurdodau Cyfrifol (Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)).

8.2 Mae'r PDC yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau'r Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae cost darparu Cynllun 2019-2020 wedi'i gynnwys o fewn o fewn y cyllid allanol sydd ar gael.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y brif risg yw bod cyllid diogelwch cymunedol ar gyfer 2019-2020 bellach wedi'i neilltuo'n rhanbarthol. I liniaru'r risg, byddwn yn sicrhau bod Sir Ddinbych yn bresennol yn y prif Fyrddau Rhanbarthol ac y bydd yr wybodaeth o'r byrddau hynny'n cael ei thrafod yn y Cyfarfod Diogelwch Cymunedau isranbarthol i sicrhau bod dealltwriaeth glir yn lleol lle mae'r grantiau diogelwch cymunedau'n cael eu gwario.

10.2 Mae angen diffinio'r drefn adrodd fewnol ar faterion sy'n pontio diogelu/diogelwch cymunedau. Mae strwythurau adrodd ar y prif Fyrddau Rhanbarthol lle trafodir materion diogelu/diogelwch cymunedau yn cael eu trafod yn rhanbarthol ac ar lefel Uwch Arweinyddiaeth yn Sir Ddinbych i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu a bod Sir Ddinbych yn cael ei chynrychioli'n briodol ar lefel ranbarthol a lleol a bod dulliau adrodd yn cael eu diffinio.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau (Trosolwg ac Archwilio) Trosedd ac Anhrefn 2009
- Mae Adran 7.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n benodol bod dyletswydd ar bwyllgor Trosedd ac Anhrefn penodedig y Cyngor i sicrhau

bod buddiannau, adnoddau a blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y PDC, yn unol ag adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedau

Rhif ffôn: 01492 575190



Community Safety Partnership

Performance report for 2018-2019 for Denbighshire

Overall Community Safety plan Performance summary

Of the three main priority areas of work for the Community Safety Partnership all three areas at the end of March 2019 two were acceptable and one excellent. We have seen an increase in the numbers of victims of crimes due to the changes in reporting and recording crime however we have seen reductions in other types of crimes we are required to monitor.

We managed to secure funding for all of the projects undertaken and we had a full spend on all of that funding received.

Statistical Summary- full statistical document for Denbighshire and Conwy with trend graphs for 2018-2019 included please see **Appendix 2**

Crime Type Denbighshire only	2017-2018	2018-2019	Percentage change
Victim Based Crime	6928	8973	>29.5% (Increase)
Residential Burglary	331	462	>39.6% (Increase)
Repeat Victims of crime	445	826	>85.6% (Increase)
Antisocial Behaviour	3416	2919	<14.5% (Decrease)
Personal Antisocial Behaviour	69	34	<50.7% (Decrease)
Hate Crime	99	145	>46.5% (Increase)
Repeat Victims of Domestic Abuse	399	424	>6.3% (Increase)
Repeat Offenders of Domestic Abuse	145	93	<35.9% (Decrease)
Sexual Offences	447	426	<4.7% (Decrease)
Repeat Offenders 18+	208	151	<27.4 (Decrease)
Repeat Offenders 12-17 Years	38	40	>5.3% (Increase)

Outcome and Performance summary

Here is a summary position for each Partnership Priority in 2018-2019. The Priorities incorporate a number of crimes under the single headings.

Priority	Description	Performance Status	Programme Progress
<u>Priority 1</u> Reduce Crime and Disorder in the area	<ul style="list-style-type: none"> • Reduce victim based crime • Reduce Antisocial Behaviour • Support vulnerable people to prevent them becoming victims of crime • Reduce repeat incidents of victim based crime and ASB for victims and perpetrators • Work with The Multi Agency Risk Assessment Conference (MARAC) to manage the levels of repeat victims of Domestic Abuse • Deal effectively with high risk cases of Domestic Abuse and Sexual Violence • Increase the confidence in reporting Domestic Abuse and Sexual Violence • Increase awareness amongst young people of sexual violence • Awareness raising of Modern Day Slavery • Awareness Raising of County Lines 		
<u>Priority 2</u> Reduce Reoffending	<ul style="list-style-type: none"> • Adult reoffending (18+) • Children and young people reoffending (12-17 years) 		
<u>Priority 3</u> Local priorities	<ul style="list-style-type: none"> • Reduce crimes linked to licenced premises • Reduce crimes linked to taxis • Reduce reports of ASB -Improve confidence in reporting ASB to the Police and Local Authority. • Promote reporting of Hate Crime 		

Key

The Colours

Colour	Action Status	Measure Status
Green	On Target	Excellent
Yellow	Experiencing Obstacles	Good
Orange	At Risk	Acceptable
Red	Compromised	Priority for improvement
Blue	Completed	N/A
Grey	No Data	No Data/Count only/Unknown

Priority 1- Reduce Crime and Disorder in the area

Performance status- Acceptable

Overall the performance for the Partnership is **Acceptable** due to the increased numbers of victims of domestic abuse and victims of crime.

In 2017-2018 Her Majesty's Inspectorate for Constabulary (HMIC) changed the way that crimes were recorded. Crimes that would have been classed as single crimes involving multiple people would now be captured as multiple crimes on a single incident. The performance figures therefore have seen an increase due to the re-classification of older crimes hence our performance being set at Acceptable.

